**Adroddiad ar**

**Goleg Castell-nedd Port Talbot**
**Heol Dŵr y Felin**
**Castell-nedd**
**SA10 7RF**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 04/03/2013**

## Cyd-destun

Cafodd Coleg Castell-nedd Port Talbot ei greu ym 1999 yn sgil uno hen golegau Castell-nedd ac Afan. Mae'r coleg yn un o'r colegau mwyaf yng Nghymru, ac mae ganddo drosiant o dros £40m y flwyddyn. Mae'n cynnig addysg drydyddol 16-19 i fwrdeistref Castell-nedd Port Talbot yn ogystal â hyfforddiant pwrpasol i ddiwydiant a busnesau lleol; mae hefyd yn chwarae rhan flaenllaw yn darparu dysgu yn y gymuned yn lleol. Mae'r coleg yn arwain consortiwm ar gyfer cyflawni contract £9.5m ar gyfer dysgu yn y gwaith.

Yn ogystal â'i ddau brif gampws, mae'r coleg hefyd yn darparu addysg a hyfforddiant mewn chwe lleoliad arall yn yr ardal leol. Mae ganddo is-gwmnïau yn Ne Orllewin Cymru yn ogystal ag ysgol ieithoedd yn Portsmouth.

Mae'r cwricwlwm yn cynnig dros 45 o bynciau Safon Uwch gyfrannol/Safon Uwch, yn ogystal â dewis helaeth o gyrsiau galwedigaethol o lefel mynediad i lefel 4. Mae'r coleg yn darparu amrywiaeth eang o raglenni addysg uwch hefyd fel rhan o gytundebau rhyddfraint gyda phrifysgolion lleol.

Yn 2011-2012, cofrestrodd y coleg bron i 4,000 o ddysgwyr amser llawn, a rhyw 9,700 o ddysgwyr rhan-amser. Mae ychydig dros 50% y dysgwyr yn ferched, ac mae rhyw 3% o'r dysgwyr yn aelodau o grwpiau ethnig lleiafrifol. Mae 46% o'r dysgwyr yn derbyn y lwfans cynhaliaeth addysg. Gall rhyw 2% o'r dysgwyr yn y coleg siarad Cymraeg.

Oddeutu 137,600 yw poblogaeth Bwrdeistref Castell-nedd Port Talbot, ac mae 19 o ardaloedd yn y fwrdeistref sydd ymhlith y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Yn gyffredinol, mae 57% o ddysgwyr yn byw yn y wardiau mwyaf difreintiedig yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae'r gyfradd diweithdra, sef 9.2%, uwchlaw cyfradd diweithdra gyfartalog Cymru, sef 8.1%. Mae'r gyfradd anweithgarwch economaidd yng Nghastell-nedd Port Talbot, sef, 28.9%, yn uwch na'r cyfartaledd o 24.6% yng Nghymru. Yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae 22.4% o swyddi yn y sectorau gweithgynhyrchu o gymharu â 13.6% yng Nghymru a 10.6% ym Mhrydain.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y darparwr** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r darparwr** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yn dda yn gyffredinol oherwydd:

- bod y cyfraddau llwyddo ar gyfer cymwysterau yn dda ar y cyfan, ac maent wedi codi'n gyflymach nag yng ngholegau eraill Cymru dros y tair blynedd diwethaf;
- bod y coleg yn perfformio'n dda pan gaiff cyfraddau llwyddo eu gosod yn erbyn colegau eraill yng Nghymru;
- bod dysgwyr ar gyrsiau Safon Uwch yn gwneud yn dda o gymharu â darparwyr eraill ac o gymharu â'u cyrhaeddiad blaenorol ar lefel TGAU mewn ysgolion;
- bod cyfran uchel o ddysgwyr yn cyflawni graddau uwch ar gyrsiau galwedigaethol graddedig;
- bod dysgwyr o gefndiroedd cymharol ddifreintiedig yn gwneud cystal â dysgwyr eraill o leiaf; a
- bod bron pob un o'r dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn mwynhau'u profiadau yn y coleg.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- bod y coleg wedi gwella'r cyfraddau y mae dysgwyr yn ennill ac yn cwblhau cymwysterau arnynt dros y tair blynedd diwethaf;
- bod y llywodraethwyr yn cynnig her gadarn i unrhyw feysydd sy'n tanberfformio;
- bod y pennaeth a'r uwch dîm rheoli yn darparu arweinyddiaeth effeithiol;
- bod y coleg wedi gwneud cynnydd da o ran gweithredu argymhellion yr adroddiad arolygu blaenorol; a
- bod y cynlluniau ar gyfer gwella yn cyd-fynd yn fanwl â'r materion a nodwyd yn yr adroddiad hunanasesu.

## Argymhellion

A1 Gwella'r cyfraddau y mae dysgwyr yn cwblhau ac yn ennill prif gymwysterau arnynt ar gyrsiau galweidgaethol lle mae'r perfformiad presennol yn is na'r cyfartaledd mewn colegau eraill yng Nghymru

A2 Gwella safonau addysgu ac asesu ym mhob maes dysgu er mwyn cyfateb i'r uchelgeisiau yng nghynlluniau'r coleg

A3 Gwneud yn siŵr bod pob athro yn gosod targedau, yn monitro ac yn olrhain cynnydd dysgwyr mewn llythrennedd a rhifedd er mwyn sicrhau gwelliant

A4 Defnyddio'r dystiolaeth o arsylwadau addysgu a dysgu i lywio adolygiadau o gyrsiau a'r cwricwlwm

A5 Hyrwyddo'r iaith Gymraeg ac ehangu gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwyr o Gymru a'i diwylliant yn unol â strategaeth ddwyieithog y coleg

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd arolygydd cyswllt y coleg yn monitro cynlluniau gweithredu a chynnydd y coleg yn erbyn yr argymhellion uchod. Bydd yn ofynnol i'r coleg gyflwyno astudiaeth achos o weithio rhagorol mewn partneriaeth a nodwyd gan yr arolygwyr.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r cyfraddau y mae dysgwyr yn cwblhau ac yn ennill cymwysterau arnynt yn dda ac maent wedi gwella'n gyflymach nag mewn colegau eraill yng Nghymru dros y tair blynedd diwethaf (2009-2011). Mae'r cyfraddau y mae dysgwyr yn cwblhau ac yn ennill cymwysterau cyrsiau hir arnynt yn uwch na'r cyfartaledd mewn colegau eraill yng Nghymru. Mae'r coleg yn cymharu'n arbennig o dda â cholegau eraill o ran y gwelliannau a ddangosir yn y cyfraddau cwblhau ar gyrsiau hir. Hefyd, mae'r gwelliannau yn y cyfraddau cyrhaeddiad yn dangos tuedd am i fyny, ond yn arafach na'r gwelliannau yn y cyfraddau cwblhau.

Mae'r cyfraddau y mae dysgwyr yn ennill cymwysterau Safon Uwch arnynt yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer pob darparwr yng Nghymru, ac maent wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf. Mewn gwyddoniaeth a mathemateg, llwyddodd y dysgwyr i gyflawni canran debyg o ddeilliannau gradd uwch (A*-B) yn y rhan fwyaf o'r pynciau Safon Uwch o gymharu â darparwyr eraill addysg drydyddol. Mae cyfraddau llwyddo mewn pynciau Safon UG wedi dangos tuedd gyson o wella dros y tair blynedd diwethaf yn y rhan fwyaf o bynciau. Mae'r graddau y mae dysgwyr yn eu cyflawni mewn pynciau Safon Uwch yn cydweddu o leiaf â'r graddau a ragwelwyd o'u cyrhaeddiad blaenorol mewn cymwysterau TGAU ym mhob un o'r pynciau Safon Uwch bron, ac roeddent yn well na'r graddau a ragwelwyd mewn lleiafrif o bynciau yn 2012.

Mae canran y dysgwyr sy'n cyflawni graddau uwch ar gymwysterau Cenedlaethol BTEC yn dda, gyda 26% o ddysgwyr yn cyflawni graddau rhagoriaeth driphlyg. Fodd bynnag, mae gormod o amrywio ar draws y coleg yn y cyfraddau y mae dysgwyr yn llwyddo yn eu prif nodau cymwysterau ar gyrsiau galwedigaethol. Mae'r deilliannau ar brif gymwysterau mewn adeiladu yn dda iawn ac yn uwch na'r cyfraddau mewn colegau eraill yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r cyfraddau y mae dysgwyr yn llwyddo ar brif gymwysterau mewn iechyd a gofal yn is na'r cyfraddau cyfartalog mewn colegau eraill yng Nghymru.

Mae cyfraddau cyflawni dysgwyr sy'n astudio Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn well na'r rheini yn y rhan fwyaf o golegau eraill yng Nghymru ar bob lefel, ac maent wedi gwella dros y ddwy flynedd diwethaf.

Mae dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn gwneud yn dda yn y coleg. Mae rhyw 46% o ddysgwyr yn cael y Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) ac maent yn cyflawni o leiaf gystal, ac yn well yn aml, na dysgwyr nad ydynt yn derbyn y lwfans. Nid oes unrhyw amrywio sylweddol yn ystadegol rhwng perfformiad dysgwyr sy'n fechgyn a merched ar draws y coleg.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da mewn sesiynau ymarferol a sesiynau theori. Maent yn cysylltu theori ag arfer yn dda, ac mae eu ffeiliau'n dangos cofnodion da o gynnydd amlwg yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r testunau y

maent wedi'u hastudio. Mewn ychydig o gyrsiau, mae'r dysgwyr yn gwneud defnydd da iawn o'r wybodaeth am y rhith-amgylchedd dysgu i gefnogi'u dysgu a chynorthwyo'u cynnydd. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos hyder cynyddol ac maent yn herio barnau ei gilydd mewn trafodaethau dosbarth. Mae bron pob un o'r dysgwyr amser llawn yn cael asesiad cychwynnol ar gyfer llythrennedd a rhifedd, ac maent yn gwybod beth yw eu gwendidau. Mae mwyafrif ohonynt yn ymwybodol o beth sydd angen iddynt ei wneud yn gyffredinol i wella'u medrau llythrennedd, ond dim ond lleiafrif sy'n ymwybodol o unrhyw dargedau manwl ar gyfer gwella. Mae ychydig o ddysgwyr yn gwneud defnydd da o'u cynlluniau dysgu unigol i gynllunio ac olrhain y gwelliannau yn eu medrau llythrennedd.

Mae strategaethau da gan y rhan fwyaf o ddysgwyr ar gyfer dethol gwybodaeth o destunau. Mae llawer ohonynt yn ysgrifennu'n gywir gan ddefnyddio sillafu, atalnodi a gramadeg sy'n briodol i'w lefel. Fodd bynnag, mae lleiafrif yn dangos camgymeriadau o ran sillafu, atalnodi a gramadeg yn eu gwaith gorffenedig.

Mae llawer o ddysgwyr ar gyrsiau Safon Uwch yn ysgrifennu'n dda ac yn estynedig at amryw o ddibenion. Ond nid yw lleiafrif o ddysgwyr yn datblygu'u medrau llythrennedd a rhifedd yn ddigon cyson o'u mannau cychwyn.

Mae rhyw 2% o ddysgwyr amser llawn yn y coleg yn siaradwyr Cymraeg rhugl, ac mae lleiafrif o'r dysgwyr hyn yn mynychu tiwtorialau cyfrwng Cymraeg. Mae ychydig o ddysgwyr yn gwella'u medrau iaith Gymraeg pan fyddant ar brofiad gwaith mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg. Ychydig o gynnydd mae dysgwyr nad ydynt yn cael y cyfleoedd hyn yn ei wneud o ran gwella'u medrau iaith Gymraeg.

**Lles: Da**

Mae'r dysgwyr yn mwynhau dod i'r coleg. Maent yn teimlo'n ddiogel a bod cefnogaeth dda iddynt. Maent yn dysgu ynghylch beth ddylent ei fwyta i gadw'n iach, ond nid ydynt bob amser yn dewis y bwydydd iach ym mannau gwerthu bwyd y coleg. Mae nifer gynyddol o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn ystod dda o weithgareddau chwaraeon a gweithgareddau corfforol eraill, gan gynnwys digwyddiadau chwaraeon cystadleuol rhwng dosbarthiadau. Mae'r dysgwyr ag anableddau corfforol yn cyfranogi'n arbennig o dda.

Mae bron pob dysgwr yn mynychu'r coleg yn rheolaidd. Maent yn dangos parch at ei gilydd ac at eu hathrawon, ac mae'r dysgwyr yn gwerthfawrogi'r ffordd aeddfed iawn sydd gan yr athrawon o'u trin.

Mae'r dysgwyr sy'n cael eu hethol fel cynrychiolwyr dosbarth yn glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau. Cymerant ran weithgar yn Senedd Undeb y coleg sy'n cyfarfod ddwywaith y tymor. Mae aelodau Senedd yr Undeb yn cyfarfod yn rheolaidd ag uwch reolwyr y coleg. Drwy'r mecanwaith hwn maent yn gwneud cyfraniadau defnyddiol at waith y coleg drwy roi gwybodaeth gyson i reolwyr ar bob lefel am farnau'r dysgwyr.

Mae'r dysgwyr sy'n astudio Bagloriaeth Cymru yn sicrhau gwybodaeth a dealltwriaeth dda iawn o bwysigrwydd cyfranogi yn y gymuned. Yn gyffredinol, nid yw dysgwyr eraill yn cael budd y cyfleoedd hyn.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

At ei gilydd, mae'r cwricwlwm yn diwallu anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r gymuned yn dda iawn, ac mae'n cynnig cyfleoedd da i ddysgwyr symud ymlaen i lefelau astudio uwch a chyflogaeth. Mae'r coleg yn cynnig ystod eang o gyrsiau addysg bellach ac addysg uwch amser llawn a rhan-amser o lefel mynediad i lefel 6 ar draws yr holl feysydd dysgu. Mae'r rhain yn cynnwys rhaglenni galwedigaethol a chyn-alwedigaethol, a rhyw 45 o bynciau Safon Uwch.

Mae'r coleg yn cydweithredu'n dda iawn gyda darparwyr dysgu eraill i ehangu cyfleoedd dysgu i ddysgwyr 14 i 19 oed. Ar hyn o bryd, mae rhyw 800 o ddisgyblion ysgol 14 i 16 oed yn mynychu rhaglenni'r coleg, ac mae tua 30% o'r dysgwyr hyn yn mynychu ysgolion y tu allan i fwrdeistref Castell-nedd Port Talbot.

Mae ychydig dros 350 o ddysgwyr amser llawn (10%) ar draws amrywiaeth o gyrsiau yn astudio Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar lefel sylfaenol, lefel ganolradd a lefel uwch.

Mae'r coleg yn mynd ati'n dda iawn i hyrwyddo addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang (DCDFE). Caiff pob un o'r dysgwyr amser llawn gyfleoedd da i ddatblygu'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o egwyddorion DCDFE drwy'r rhaglen diwtorial a'r pynciau y maent yn eu hastudio. Mae'r coleg yn rhoi cymorth ac anogaeth dda i ddysgwyr i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau ychwanegol ac arwain prosiectau sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth amgylcheddol a diwylliannol. Er enghraifft, aeth dysgwyr ati'n ddiweddar i lunio adroddiad manwl ar y coleg ac ystyriaethau amgylcheddol, maent wedi sefydlu 'eco grwpiau' ac maent wrthi'n cynhyrchu rhaglen gylchgrawn a fydd yn cael ei dangos ar setiau teledu o amgylch y coleg. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar eto i weld effaith lawn y gwaith hwn ar brofiadau'r holl ddysgwyr.

Mae'r holl ddysgwyr amser llawn yn dilyn rhaglen berthnasol o addysg yn gysylltiedig â gwaith. Mae llawer ohonynt yn cwblhau profiad gwaith gyda chyflogwyr, ac mae'r athrawon yn trefnu profiad gwaith priodol a realistig ar gyfer y dysgwyr pan fydd cyfyngiadau oedran, er enghraifft, yn eu hatal rhag gweithio mewn maes galwedigaethol, neu pan fo cyfleoedd yn gyfyngedig i gael profiadau addas. Mae'r coleg hefyd yn rhoi cyfleoedd priodol i'r dysgwyr ymgymryd â gweithgareddau menter ac entrepreneuraidd fel rhan o'u prif raglen, neu'n ychwanegol ati, ac mae'n trefnu amrywiaeth fawr o weithgareddau cyfoethogi i'r dysgwyr.

Mae'r coleg yn nodi lefelau medrau llythrennedd a rhifedd y dysgwyr yn dda. Cânt asesiadau cychwynnol a diagnostig i nodi'u lefel medrau a meysydd lle mae ganddynt wendidau. Fodd bynnag, nid yw'r athrawon yn gyffredinol yn defnyddio'r wybodaeth fanwl hon yn ddigon da i gynllunio'n briodol ar gyfer datblygu medrau hanfodol y dysgwyr, yn enwedig pan fydd y dysgwyr yn gweithio uwchlaw lefel 1.

Mae hyrwyddwyr dwyieithog gan yr holl ysgolion o fewn y coleg, a'u rôl yw rhannu arfer dda. Mae nifer o gyrsiau'n cynnig elfennau o'r rhaglen yn ddwyieithog a gall y dysgwyr fynychu tiwtorialau dwyieithog. Mae'r dysgwyr sy'n astudio Bagloriaeth

Cymru'n dysgu am Gymru a'i diwylliant. Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau eraill, mae athrawon yn colli cyfleoedd i godi ymwybyddiaeth y dysgwyr o'r dimensiwn Cymreig drwy eu maes pwnc. At ei gilydd, nid yw'r coleg yn gwneud digon i hyrwyddo'r Gymraeg ac ehangu gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwyr o Gymru a'i diwylliant.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu'n dda yn y rhan fwyaf o sesiynau. Yn y sesiynau gorau, mae athrawon yn ennyn diddordeb llawn y dysgwyr ac yn sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd da. Defnyddia'r athrawon amrywiaeth briodol o dechnegau i ysgogi, cymell ac ennyn diddordeb y dysgwyr a helpu datblygu'u dysgu. Gwnânt ddefnydd da o ganmoliaeth, yn enwedig mewn sesiynau adborth un i un. Ym mhob un o'r sesiynau galwedigaethol bron, mae'r athrawon yn cyfeirio at arfer ddiwydiannol a busnes dda ac yn paratoi dysgwyr yn dda ar gyfer byd gwaith. Mae cyflymder yr addysgu'n fywiog yn y rhan fwyaf o sesiynau; mae'r athrawon yn gosod targedau heriol ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel. Ceir cydbwysedd da rhwng cyfarwyddo, cynorthwyo ac arsylwi dysgwyr. Mae rhan fwyaf yr athrawon yn gosod tasgau mynych i ennyn diddordeb y dysgwyr a rhoi prawf iddynt. Yn y rhan fwyaf o wersi, mae'r athro yn ymdrechu i wneud y dysgu yn ddifyr i'r dysgwyr. Mewn lleiafrif o wersi mae cyflymder yr addysgu a'r dysgu'n rhy araf, ac nid yw'r athrawon yn cynnig digon o her i'r dysgwyr. Mae ychydig o sesiynau'n cael eu harwain gormod gan yr athro ac o ganlyniad mae'r dysgwyr yn rhy oddefol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn dangos gwybodaeth bynciol ragorol. Maent yn frwdfrydig, yn wybodus ac yn drefnus iawn. Yn y rhan fwyaf o sesiynau, mae'r athrawon yn gwneud defnydd da o amlgyfryngau, PowerPoint a'r rhyngrwyd i ddiddori ac ysgogi dysgwyr ac i gefnogi addysgu a dysgu. Defnyddiant fedrau holi yn dda i brofi gwybodaeth a herio'r dysgwyr, ac i gynnig heriau i'r dysgwyr ar gyfer pob lefel gallu. Fodd bynnag, mewn rhai gwersi mae'r athrawon yn defnyddio amrywiaeth gyfyngedig o dechnegau holi sy'n methu hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwyr yn effeithiol.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae gwaith marcio'r athrawon a'u hadborth ysgrifenedig yn rheolaidd ac yn adeiladol. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynnig ystod dda o gyfleoedd i'r dysgwyr er mwyn gwirio'u cynnydd. Fodd bynnag, mae safon marcio'r athrawon ar gyfer sillafu, gramadeg ac atalnodi yn amrywio gormod ac nid yw'r athrawon bob amser yn cywiro camgymeriadau. Mewn ychydig o achosion, nid yw'r athrawon yn rhoi digon o adborth i ddysgwyr am y camau penodol y mae angen iddynt eu cymryd i wella safon eu gwaith.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

At ei gilydd, mae trefniadau'r coleg yn dda ar gyfer hyrwyddo iechyd a lles y dysgwyr. Caiff pwysigrwydd ffyrdd iach o fyw ei hyrwyddo'n dda drwy'r rhaglen diwtorial. Mae amrywiaeth dda o ddewisiadau bwyta'n dda ar gael ym mhob un o'r mannau gwerthu bwyd ac mae'r rhain yn cael eu hyrwyddo'n dda ar draws y coleg cyfan.

Mae trefniadau da gan y coleg ar gyfer arweiniad a chymorth cychwynnol. Cyn iddynt ddod i mewn mae staff y coleg yn rhoi gwybodaeth a chyngor clir a realistig i'r

dysgwyr am y coleg a'i gyrsiau. Mae'r athrawon a'r staff cymorth yn rhoi cymorth da i'r dysgwyr yn ystod eu cyrsiau i'w galluogi i ymdopi â gofynion eu rhaglen. Mae staff y coleg yn gweithio'n agos ac yn effeithiol iawn ag ysgolion uwchradd lleol i reoli trosglwyddo dysgwyr o'r ysgol i'r coleg.

Mae athrawon yn darparu rhaglenni tiwtorial strwythuredig a defnyddiol i'r dysgwyr amser llawn. O ganlyniad, mae'r dysgwyr yn glir ynghylch ble allant fynd i ofyn am gyngor, ac maent yn gwerthfawrogi'r cymorth a gânt. Mae llawer o athrawon yn rhoi cymorth ychwanegol mewn llythrennedd a rhifedd i'r dysgwyr, ac mae hwn wedi'i deilwra i'w hanghenion nhw ac anghenion eu rhaglen. Mewn ychydig o achosion, fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn cyflwyno'r rhaglen diwtorial yn ddigon cyson.

Mae trefniadau arbennig o effeithiol gan y coleg i gynorthwyo dysgwyr sy'n fwy agored i niwed, er enghraifft, y rheini sydd wedi bod mewn gofal. Yn ogystal â'r cymorth ychwanegol a ddarperir gan staff y coleg, mae'r tîm cymorth dysgwyr yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r staff perthnasol yn y gwasanaethau cymdeithasol hefyd. Rhoddwyd llawer o wobrau nodedig i'r coleg am effeithiolrwydd ei waith yn y maes hwn.

Mae system y coleg ar gyfer cynlluniau dysgu unigol electronig (CDUe) yn ddull cynhwysfawr ar gyfer olrhain a chofnodi cyflawniadau a chynnydd y dysgwyr. Mae llawer o athrawon yn ei ddefnyddio'n dda i dargedu cymorth at ddysgwyr nad ydynt yn gwneud y cynnydd disgwyliedig. Fodd bynnag, er bod y CDUe yn cael ei ddefnyddio'n dda iawn mewn rhai adrannau, nid yw'n cael ei ddefnyddio mor effeithiol ym mhob maes.

Mae athrawon a staff cymorth yn rhoi cymorth effeithiol iawn i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn adnabod anghenion dysgu unigol yn dda pan fyddant yn cychwyn, ac yn teilwra cymorth i ddiwallu anghenion dysgwyr unigol. Mae ychydig o ddysgwyr yn gwirfoddoli fel mentoriaid cyfoed i helpu'u cyd-ddysgwyr i oresgyn anawsterau mewn ystod eang o faterion. Mae athrawon a thiwtoriaid yn darparu hyfforddiant da iawn iddynt i'w cynorthwyo i gyflawni'r rôl hon.

Mae gan y coleg bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r coleg yn darparu amgylchedd dysgu croesawgar a chynhwysol i bob dysgwr. Mae'n hyrwyddo ethos o gydraddoldeb ar draws holl rannau'r coleg. Mae ganddo ystod gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau sy'n hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn dda. Mae swyddog amrywiaeth amser llawn yn arwain ar bob agwedd o'r gwaith hwn, a bydd yn adrodd i'r grŵp rheoli amrywiaeth sy'n cael ei gadeirio gan aelod o'r uwch dîm rheoli. Mae'r grŵp hwn wedi gweithio'n dda i godi proffil cydraddoldeb ac amrywiaeth ar draws y coleg. Mae grŵp cymorth rhagweithiol iawn ar gyfer Lesbiaid, Hoywon, Pobl Ddeurywiol a Thrawsrywiol yn hyrwyddo ethos y coleg o gynnig croeso a chymorth o ddifrif i bob dysgwr.

At ei gilydd, mae ansawdd yr adeiladau ar draws y safleoedd amrywiol yn amrywio o fod yn foddhaol i fod yn rhagorol. Gwna'r coleg y defnydd gorau o adeiladau hŷn i

wneud yn siŵr bod dysgwyr yn gweithio mewn amgylchedd priodol sy'n cefnogi'u dysgu. Mae arddangosfeydd yn yr ystafelloedd dosbarth yn dda yn gyffredinol. Fodd bynnag, ychydig o arddangosiadau ar y waliau sy'n ddwyieithog neu'n dathlu diwylliant Cymru. Mae adnoddau da gan y rhan fwyaf o ystafelloedd dosbarth a gweithdai, ac mae ganddynt ddewis helaeth o adnoddau addysgu a dysgu. At ei gilydd, mae'r dysgwyr a'r staff yn cael cyfle da i ddefnyddio ystod eang o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws holl safleoedd y coleg.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth a'r uwch dîm rheoli yn gweithio'n dda â'i gilydd i gyflawni blaenoriaethau strategol y coleg. Yn ddiweddar, aethant ati i adolygu a diweddaru strwythur rheoli'r coleg i gynnwys dirprwy gyfarwyddwyr. Mae'r rôl newydd hon ar gyfer penaethiaid adrannau yn hyrwyddo ffocws ar draws y coleg ac mae wedi arwain at gyfathrebu gwell ar bob lefel.

Mae rolau a chyfrifoldebau clir gan reolwyr ar bob lefel, ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u cyfraniad o fewn llinellau atebolrwydd y coleg. Mae'r coleg yn cynllunio cyfarfodydd rheoli yn dda i sicrhau bod pob rheolwr yn cael ei gynnwys yn llawn yng ngwaith y coleg, ac i sicrhau yr eir i'r afael yn gyflym ag unrhyw ystyriaethau.

Mae cynllun strategol pum mlynedd y coleg yn cynnwys datganiadau o weledigaeth wedi'u diffinio o'r newydd, ynghyd â chyfres glir o werthoedd. Cynhwysir y gwerthoedd hyn yn briodol ym mhob agwedd ar y coleg, gan gynnwys rheoli perfformiad ac ymsefydlu dysgwyr. Nod y gwerthoedd yw rhoi'r dysgwr wrth graidd holl weithgareddau'r coleg.

Mae rheolwyr y coleg yn gwneud defnydd effeithiol iawn o ystod o ddata i ddadansoddi deilliannau cyrsiau a rhaglenni. Defnyddiant y wybodaeth hon yn dda i lywio cynlluniau gweithredol ac i osod targedau heriol er mwyn gwella perfformiad a deilliannau. Mae gan y pennaeth ac arweinwyr y coleg ddisgwyliadau uchel gan bob aelod o staff, ac eir i'r afael yn effeithlon ag unrhyw agweddau ar danberfformio. Yn ddiweddar, aeth y coleg ati i addasu'r broses rheoli perfformiad er mwyn gwella'i heffeithiolrwydd. Fodd bynnag, nid yw'r coleg yn rhoi ystyriaeth ddigonol i'r dystiolaeth o arsylwadau sesiynau ynglŷn â safonau addysgu ac asesu wrth arfarnu effeithiolrwydd y ddarpariaeth neu wrth gynllunio ar gyfer gwelliant.

Mae dealltwriaeth dda gan lywodraethwyr y coleg o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Cyfrannant ystod eang o fedrau amrywiol at y corff llywodraethol. Maent yn defnyddio'r medrau hyn yn dda i gefnogi a herio rheolwyr y coleg. Mae ganddynt wybodaeth eang iawn am yr ardal leol. Maent yn cyfuno blaenoriaeth ar rôl y coleg yng nghymuned Castell-nedd Port Talbot â phwyslais clir ar ddarparu addysg o ansawdd uchel i bob dysgwr.

Mae'r coleg yn gweithio'n dda iawn gydag ystod o bartneriaid i ymateb i'r angen lleol ac i fodloni blaenoriaethau cenedlaethol. Mae dealltwriaeth drylwyr gan y pennaeth

a'r uwch reolwyr o broffil cymdeithasol ac economaidd y fwrdeistref sirol, a'r anghenion a'r heriau y mae'r gymuned leol yn eu hwynebu. Defnyddiant y wybodaeth hon yn effeithiol fel rhan o'u cynllunio strategol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae system gynhwysfawr a chynlluniedig gan y coleg ar gyfer monitro ansawdd ei ddarpariaeth a gosod targedau ar gyfer codi safonau a gwella deilliannau dysgwyr. Mae'r trefniadau hunanasesu wedi'u hymgorffori'n dda yn rheolaeth weithredol y coleg.

Caiff y broses hunanasesu flynyddol ar lefel adrannau a'r coleg ei llywio'n dda gan adolygiadau a gynhelir ar lefel timau cwrs. Mae timau cwrs yn adolygu perfformiad cyrsiau yn erbyn cyfartaleddau cenedlaethol a data gwerth ychwanegol er mwyn tynnu sylw at gryfderau a meysydd i'w gwella. Mae system arolygiadau mewnol y coleg yn canolbwyntio'n fanwl ar feysydd tanberfformio, yn ogystal â meysydd ag arfer ragorol, er mwyn galluogi rhannu'r rhain ar draws y coleg. Mae canlyniadau arolygiadau mewnol yn bwydo i'r adroddiadau hunanasesu a gynhyrchir ar gyfer pob adran. Ym mhob cyfnod, mae athrawon a rheolwyr yn gwneud defnydd da iawn o ddadansoddi data ar ddeilliannau dysgwyr a deilliannau ymgynghoriadau dysgwyr. Fodd bynnag, nid yw'r adolygiadau'n cynnwys digon o wybodaeth am y safonau addysgu ac asesu, ac nid oes digon o ddadansoddi'n cael ei wneud o'r holl ffactorau a allai gyfrannu at danberfformiad dysgwyr.

Mae'r broses hunanasesu yn arwain at gynhyrchu cynlluniau datblygu ansawdd ar lefel adrannol. Mae'r rhain yn ddogfennau gweithio defnyddiol y bydd rheolwyr yn eu diweddaru'n rheolaidd. Ceir targedau clir â chyfyngiadau amser yn y cynlluniau, ac mae'r rhain yn blaenoriaethu'r prif feysydd i'w gwella.

Mae grŵp rheoli dysgu a pherfformiad y coleg yn cyfarfod yn rheolaidd i nodi a thrafod rhesymau am unrhyw danberfformio. Cyflwynir canfyddiadau'r grŵp hwn i bwyllgor dysgu a pherfformiad y llywodraethwyr i graffu arnynt yn ofalus. Mae'n ofynnol i benaethiaid adran fynychu'r pwyllgor a chyfrif am eu data perfformiad ac esbonio tanberfformio mewn cyrsiau unigol.

Mae'r coleg yn gofyn am farnau'r dysgwyr yn rheolaidd gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau, er enghraifft, holiaduron achlysurol, ac mae'n gofyn am farnau cynrychiolwyr cyrsiau a senedd yr undeb. Bydd rheolwyr yn defnyddio gwybodaeth o'r ffynonellau hyn yn dda i newid arferion a sicrhau gwelliant, er enghraifft, mewn tiwtorialau, yn y cyfnod ymsefydlu ac wrth gyflwyno medrau hanfodol.

Mae'r adroddiad hunanasesu'n adlewyrchiad gonest o waith y coleg, ac mae'r camau sydd wedi'u cynllunio i wella'r ddarpariaeth yn cael eu disgrifio'n dda yn y cynllun datblygu ansawdd. Fodd bynnag, mae rhannau o'r adroddiad hunanasesu'n rhy ddisgrifiadol ac yn ailadroddus. At ei gilydd, mae'r coleg wedi ymateb yn dda i'r argymhellion o'r arolygiad diwethaf.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

At ei gilydd, mae'r coleg wedi datblygu gwaith partneriaeth rhagorol gydag ystod eang o bartneriaid allweddol a rhanddeiliaid. Mae'r rhain yn cynnwys Cynghorau

Sgiliau Sector, ysgolion uwchradd, ysgolion cynradd, cyflogwyr ac awdurdodau lleol. Hefyd, mae'r coleg yn bartner arweiniol mewn consortiwm o ddarparwyr dysgu yn y gwaith. Mae bron pob un o'r partneriaethau wedi'u sefydlu'n dda ac mae ganddynt hanes da o lwyddo. Mae rhanddeiliaid yn ystyried y coleg yn 'bartner o ddewis' ar gyfer darparu rhaglenni addysg a hyfforddiant. Mae pob un o'r partneriaid yn ymddiried yn fawr iawn yn y coleg a chredant ei fod yn ychwanegu gwerth helaeth at y cyfleoedd addysg a hyfforddiant i bobl yn yr ardal.

Mae'r coleg wedi datblygu strategaeth ymgysylltu glir ac effeithiol sy'n ei osod wrth graidd ei holl drefniadau partneriaeth bron. O ganlyniad, mae'r coleg yn chwarae rhan allweddol, ac yn arwain yn aml, o ran sicrhau ansawdd rhaglenni addysg a hyfforddiant yn yr ardal.

Mae gan y coleg berthnasoedd da iawn gydag ystod eang o gyflogwyr a chymdeithasau lleol sy'n cynnwys cwmnïau cenedlaethol a mentrau bach a chanolig. Un cryfder arbennig yn yr ardal hon yw amrywiaeth y sectorau cyflogaeth a gynrychiolir mewn trefniadau partneriaeth gyda'r coleg. Mae'r coleg yn gweithio'n agos â'r cyflogwyr hyn a diwydiannau lleol eraill i'w helpu i ddiwallu'u hanghenion hyfforddi a datblygu. Er enghraifft, cynrychiolir y coleg ar fwrdd gweithredol grŵp Cymorth Adeiladu Bae Abertawe, sy'n cysylltu anghenion addysg a hyfforddiant rhyw 30 o gwmnïau adeiladu â darpariaeth y coleg.

Mae pob cyflogwr o'r farn fod y coleg yn ymatebol iawn o ran diwallu'u hanghenion trwy ddarparu lefel uchel o hyblygrwydd wrth gyflwyno'r rhaglenni hyfforddi mwyaf priodol yn y dull mwyaf priodol. Yn aml, mae'r coleg yn cynnig pecynnau hyfforddi pwrpasol i ddiwallu anghenion hyfforddi penodol staff cyflogwyr.

Mae perthynas gadarn iawn gan y coleg â'r rhwydwaith dysgu 14-19 lleol, ac mae ganddo ddylanwad cryf ar gynllunio'r ddarpariaeth yn strategol er mwyn sicrhau bod dysgwyr yng Nghastell-nedd Port Talbot yn gallu dilyn yr amrywiaeth ehangaf bosibl o gyrsiau galwedigaethol a chyrsiau addysg gyffredinol. Mae'r coleg yn chwarae rhan sylweddol yn helpu ysgolion partner i gyflawni gofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau.

Mae ysgolion uwchradd yn elwa ar gyfranogiad y coleg mewn nosweithiau agored i rieni er mwyn trafod dewisiadau gyda dysgwyr. Hefyd, mae'r coleg yn cyfranogi yn rhaglenni pontio ysgolion uwchradd gyda'u hysgolion cynradd bwydo.

Mae'r Coleg yn gweithio'n dda hefyd gyda rhwydweithiau dysgu 14-19 y tu allan i'r fwrdeistref i alluogi eu dysgwyr i ddilyn cyrsiau penodol. Mae'r rhain yn cynnwys ysgolion ym Mhowys, Sir Gaerfyrddin ac Abertawe. Mae'r bartneriaeth gydag un ysgol yn Abertawe mewn adeiladu wedi arwain at ryw 80 o ddysgwyr yn dilyn cymwysterau BTEC lefel 1 a lefel 2 mewn adeiladu ar gampws Llansamlet y coleg. Hefyd, mae'r coleg wedi datblygu rhaglen hyfforddi bwrpasol yn yr ysgol hon ar gyfer grŵp o ddysgwyr y mae angen cymorth ychwanegol arnynt, gan eu galluogi i weithio tuag at gymwysterau lefel 1.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r coleg yn rheoli'i adnoddau yn effeithiol, ac mae ganddo reolaethau ariannol cadarn. Mae prosesau ariannol y coleg yn dda, a chânt eu rheoli'n fanwl gyda'r

systemau priodol yn eu lle ar gyfer dirprwyo a monitro. Mae hyn yn galluogi rheolwyr cwricwlwm i fynd i'r afael â blaenoriaethau adnoddau'n briodol er budd y dysgwyr.

Mae systemau priodol ar waith i recriwtio a defnyddio staff yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae cysylltiadau da rhwng staff, rheolwyr cwricwlwm a'r adran adnoddau dynol i sicrhau bod staff yn cael eu lleoli a'u defnyddio'n briodol.

Mae'r coleg yn hyrwyddo ac yn cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus (DPP), ac mae'r staff a rheolwyr yn ymateb yn gadarnhaol i gyfleoedd DPP. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys cynorthwyo staff i gwblhau cymwysterau ychwanegol, gwella dilyniant gyrfaoedd a datblygu'r cwricwlwm.

At ei gilydd, mae'r deilliannau ar gyfer dysgwyr ac ansawdd yr addysgu yn dda. Mae'r coleg yn rheoli'i gyllid a'i adnoddau yn dda, ac felly mae'n cynnig gwerth da am arian i'w ddysgwyr.

## Atodiad 1

**Boddhad Dysgwyr**

Fe wnaeth dros 1,400 o ddysgwyr lenwi'r holiadur, ac o'r rheini roedd 1,300 yn ddysgwyr amser llawn yn y coleg. Mae'r holiaduron yn dangos bod pob un o'r dysgwyr yn fodlon iawn â'u profiadau yn y coleg. Byddai bron pob un o'r dysgwyr (97%) yn argymell y coleg i ddarpar ddysgwyr eraill. Mae bron yr holl ddysgwyr yn adrodd eu bod wedi cael gwybodaeth dda am y cyrsiau sy'n cael eu cynnig, yn ogystal ag arweiniad da ar ddewis cyrsiau a phynciau i'w hastudio. Mae bron pob un o'r dysgwyr o'r farn fod y coleg yn darparu offer o safon uchel iddynt, gan gynnwys mynediad i offer technoleg gwybodaeth. Cytuna'r holl ddysgwyr bron eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn rhydd o unrhyw aflonyddu pan fyddant yn y coleg. Mae'r holl ddysgwyr bron yn dweud eu bod wedi gwella'u gwybodaeth am sut i gadw'n iach a diogel ers ymuno â'r coleg. Yr unig agwedd lle teimlai lleiafrif o ddysgwyr nad oedd y coleg wedi llwyddo'n llawn oedd o ran eu galluogi i gyfranogi mwy yn eu cymuned eu hunain.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Eleanor Davies | Arolygydd Cofnodol |
| Christine Hooper | Arolygydd Tîm |
| Stephen Davies | Arolygydd Tîm |
| Bernard Hayward | Arolygydd Tîm |
| Gill Sims | Arolygydd Tîm |
| Steve Bell | Arolygydd Tîm |
| Mark Evans | Arolygydd Tîm |
| Nicholas Tyson | Arolygydd Cymheiriaid |
| Ann Joynson-Evans | Arolygydd Cymheiriaid |
| Janice Lewis | Arolygydd Cymheiriaid |
| Christopher Smith | Arolygydd Cymheiriaid |

| | |
|---|---|
| Rhianwen Edwards | Arolygydd Cymheiriaid |
| Judith Forbes | Arolygydd Cymheiriaid |
| Keith Booker | Enwebai’r Darparwr |